**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Strategaeth a Chyllid Addysg Drydyddol ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2024.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

**26 Mehefin 2024**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o fenthyciad at gostau byw (a elwir hefyd yn fenthyciad cynhaliaeth) myfyriwr israddedig llawn-amser ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/2025 o dan amgylchiadau penodol. Bydd y dilead yn dod i rym o'r diwrnod ar ôl y dyddiad y derbynnir ad-daliad benthyciad cyntaf y myfyriwr.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a), (2)(g), a (3)(d), a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998") ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy o ran Cymru.

3.2 Trosglwyddodd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddwyd pob un o'r swyddogaethau hyn wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.3 Bydd myfyrwyr israddedig sy'n cael benthyciad at gostau byw gan Weinidogion Cymru ym mlwyddyn academaidd 2024/2025 yn gwneud hynny o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/47 (Cy. 21)) neu Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/191 (Cy. 42)), gan ddibynnu ar ba bryd y mae eu cwrs yn dechrau.

3.4 Mae darpariaethau sy'n ymwneud ag ad-dalu benthyciadau at gostau byw wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (O.S. 2009/470), (fel y'u diwygiwyd) a wnaed ar sail gyfansawdd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol o dan

adrannau 22 a 42 o Ddeddf 1998 ac adrannau 5 a 6 o Ddeddf Gwerthu Benthyciadau Myfyrwyr 2008.

3.5 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i fyfyrwyr, sy'n cael benthyciad cynhaliaeth (costau byw) gan Weinidogion Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 mewn cysylltiad â chwrs israddedig llawn-amser, elwa ar ostyngiad o hyd at £1,500 ym malans eu benthyciad pan fyddant yn dechrau ad-dalu eu benthyciad. Ni fydd hyn ar ffurf cyfandaliad arian parod; yn hytrach bydd balans benthyciad unigolyn yn cael ei ostwng gan y swm priodol y diwrnod ar ôl i ad-daliad cyntaf y benthyciwr gael ei wneud.

4.2 Dim ond unwaith y gall myfyriwr gael dilead rhannol; ni all gael dilead rhannol mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd 2024/25 os yw eisoes wedi cael dilead mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol. Ni fydd gan fyfyriwr hawl i gael dilead rhannol os oes unrhyw gosbau neu daliadau heb eu talu neu os yw'n torri cytundeb ei fenthyciad neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998.

*Gordaliad cyllid myfyrwyr*

4.3 Mae gordaliad yn digwydd pan fydd myfyriwr yn cael mwy o gyllid myfyriwr nag y mae ganddo hawl iddo. Gall hyn ddigwydd os na fydd myfyrwyr yn hysbysu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr eu bod wedi gadael neu gymryd seibiant o'u cwrs; neu os na ddarparwyd digon o dystiolaeth ar amser i brofi eu sefyllfa ariannol; neu os yw eu hamgylchiadau wedi newid. Byddai pob un o'r sefyllfaoedd hynny yn golygu bod angen ailasesu hawl ariannol y myfyriwr. Gall y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr adennill gordaliad trwy ddidynnu arian o unrhyw daliadau yn y dyfodol neu sefydlu cynllun ad-dalu gyda'r benthyciwr. Mae adennill gordaliad yn cael ei drin fel mater ar wahân i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr.

4.4 Mae eglurhad technegol yn cael ei wneud i'r Rheoliadau hyn i eithrio gordaliadau o'r hyn a olygir wrth gyfeirio at y ddyled heb ei thalu (y cyfanswm sy'n ad-daladwy gan y benthyciwr ar y dyddiad ad-dalu).

4.5 Bydd yr eglurhad hwn yn ei gwneud yn glir y bydd unrhyw ordaliad o fenthyciad cynhaliaeth yn cael ei drin ar wahân i brif swm y benthyciad y

mae hawl gan fenthyciwr iddo, ac o ganlyniad na fydd yn rhan o'r cyfanswm a ddefnyddir wrth gymhwyso dilead rhannol.

## 5. Ymgynghori

5.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gan fod y Rheoliadau hyn yn barhad o bolisi presennol a fydd yn gymwys i flwyddyn academaidd yn dechrau ar, neu ar ôl, 1 Awst 2024.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

6.2 Mae'r offeryn statudol hwn yn cael ei gynnwys yn yr eithriadau a nodir yn y cod gan mai diwygiadau ffeithiol yn unig sy'n cael eu gwneud er mwyn diweddaru is-ddeddfwriaeth. Nid yw'r rhain yn newid y polisi (na'i effaith) yn arwyddocaol mewn unrhyw fodd, na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol.

6.3 Mae'r polisi hwn wedi parhau ym mhob blwyddyn academaidd ers 2010/11, drwy reoliadau a wneir yn flynyddol. Ni fu newid yn y polisi; dim ond diweddaru'r flwyddyn academaidd y bydd y polisi'n weithredol yn ei hystod, hynny yw 2024/25, ac egluro'r sefyllfa o ran gordaliadau y mae'r offeryn statudol.